

DISGRIFIAD SWYDD/MANYLEB

Teitl Swydd	Cynghorydd Datblygu Menter
Cyflogwr	Cwmnïau Cymdeithasol Cymru - rydym yn cefnogi unigolion a sefydliadau i ddatblygu mentrau sy'n gosod tegwch wrth wraidd eu hymarfer cyflogaeth. Cefnogi mentrau i roi cydraddoldeb wrth galon eu busnes. Rydyn ni eisiau Cymru lewyrchus lle mae gan bob person waith a chyfleoedd lle maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddefnyddiol ac yn cael eu cynnwys.
Gwefan	https://www.socialfirmswales.co.uk/hafan
Pwrpas amlinellol	<p>Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm bach ledled Cymru i gefnogi pobl sydd ag ystod gallu eang, a'r rhai o gymunedau amrywiol i ddatblygu a thyfu mentrau cymdeithasol a busnesau hunangyflogaeth sy'n fasnachol hyfyw. Bydd hyn yn cynnwys pobl:</p> <ul style="list-style-type: none">– gydag anabledd dysgu, corfforol neu synhwyrdd;– sy'n byw gyda chyflyrau niwro-amrywiol;– sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu;– sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau– sydd wedi profi digartrefedd;– sy'n rheoli problemau iechyd meddwl, a/neu;– sefydliadau neu bobl sy'n eu cefnogi, a;– gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, sefydliadau partner a phob sector o gymdeithas sifil.
Lleoliad	Lleoliadau cartref ac o bell, digwyddiadau, hyfforddiant ac ati.
Oriau gwaith	30 awr yr wythnos gyda hyblygrwydd rhesymol.
Renumeration	£29,250.00 pro-rata y flwyddyn (£23,400 gwirioneddol)
Adrodd i	Prif Weithredwr
Cyfrifoldebau arbenigol	<p>Darparu cymorth, cyngor ac arweiniad yn enwedig mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none">– Asesu syniadau busnes i sicrhau eu bod yn hyfyw– Cynllunio busnes a phrosiectau– Datblygu cynnyrch a gwasanaeth– Cynllunio ariannol– Ymchwil, brandio a marchnata– Cynllunio ar gyfer risg

Cyfrifoldebau eang Hyrwyddo'r gwerthoedd ac egwyddorion Cwmnïau Cymdeithasol, cefnogi gweithio tîm yn barchus ac yn gallu gweithio i lefelau uchel o gyfrinachedd.

Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad Bydd angen i chi feddu ar brofiad o ddatblygu busnes i gynnwys:

- Asesu syniad busnes, a yw'n ymarferol?
- Yn gallu gweithio mewn ffordd sy'n gweithio i'n cleientiaid, gallai hyn fod ar gyflymder a dulliau sy'n gweithio iddyn nhw.
- Cynllunio busnes a phrosiectau
- Datblygu cynnyrch a gwasanaeth
- Cynllunio ariannol
- Ymchwil, brandio a marchnata
- Asesu risg
- Ysgrifennu adroddiadau
- Gallu blaenoriaethu a gweithio i derfynau amser pan fo angen

Sgiliau personol delfrydol

- Gwybodaeth a phrofiad o fenter gymdeithasol a busnesau hunangyflogedig.
- Cefndir Masnachol/ Entrepreneur / Entrepreneur Cymdeithasol
- Dealltwriaeth o'r Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus
- Cymhelliant uchel a'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm a gyda phartneriaid / partneriaethau traws-sector eang
- Dull cadarnhaol, beiddgar, sy'n gallu rhoi gwybodaeth a meithrin hyder
- Sgiliau trafod da ac yn gallu meithrin ymdeimlad o frwdfrydedd a hyder gyda phobl neu sefydliadau y byddwch yn cefnogi gyda nhw
- Gallu adnabod cyfleoedd masnachol
- Dealltwriaeth o gyllid cychwynnol a ffrydiau cymysg
- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i gyfathrebu ar bob lefel a gyda phob sector
- Gallu meddwl yn strategol
- Deall agendâu masnachol, cymdeithasol ac amgylcheddol
- Gallu cyflwyno i grwpiau bach ac mewn cynadleddau
- Sgiliau rhwydweithio da
- Sgiliau trefnu da
- Ymddangosiad smart a dull proffesiynol
- Dibynadwyedd a disgresiwn wrth drin gwybodaeth gyfrinachol a sensitif
- Defnyddio car neu fynediad i drafndiaeth gyhoeddus

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr nac yn unigryw, ac efallai y bydd gofyn i chi gyflawni dyletswyddau eraill y bernir eu bod yn angenrheidiol ac sy'n rhesymol o fewn cwmpas y swydd.

